



# Strategaeth Dementia Gogledd Cymru

## Data a gwybodaeth gefndir

Lluniwyd y ddogfen hon fel dogfen drafod i fod yn sail i ddatblygu Strategaeth Dementia Integredig Gogledd Cymru. Cymerwyd llawer o'r wybodaeth o Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a'i diweddarau fel roedd yn briodol.

### Contents

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth .....	3
Nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru.....	3
Cyfradd diagnosis dementia .....	4
Nifer y bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth.....	4
Mae nifer y bobl â dementia yn debygol o gynyddu.....	6
Dementia cynnar.....	8
Nam gwybyddol ysgafn.....	8
Pobl ag anableddau dysgu .....	9
Nam ar y synhwyrâu .....	9
Iechyd corfforol a chyflyrau eraill .....	10
Gofalwyr .....	10
Lleihau'r risg ac oedi'r cychwyn .....	11
Darpariaeth yn y Gymraeg .....	12
Cydraddoldeb a hawliau dynol .....	15
Oedran.....	15
Anabledd .....	16
Priodas a phartneriaeth sifil .....	16
Beichiogrwydd a mamolaeth.....	16

Hil .....	16
Crefydd neu gred .....	18
Rhyw.....	19
Cyfeiriadedd rhywiol a phobl drawsryweddol.....	19
Tlodi .....	20
Faint sy'n cael ei wario ar wasanaethau pobl hŷn .....	21
Cyfeiriadau .....	22

### **Mynegai i'r tablau**

Tabl 1 Nifer y bobl yng Ngogledd Cymru â dementia, fesul sir, 2017.....	3
Tabl 2 Nifer y bobl â diagnosis ac amcangyfrif o'r nifer heb ddiagnosis 2017-18.....	4
Tabl 3 Nifer y bobl 65+ oed oedd yn derbyn gwasanaethau gofal cartref, 2017-18 ...	5
Tabl 4 Nifer yr oedolion oedd yn byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio, 2017-18	6
Tabl 5 Lleoliadau cartref gofal yng Ngogledd Cymru, fesul math y gofal .....	6
Tabl 6 Nifer a chanran y bobl 65+ oed oedd yn siarad Cymraeg, 2011 .....	13
Tabl 7 Canran staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n siarad Cymraeg.....	14
Tabl 8 Amcangyfrifon consensws o ba mor gyffredin (%) mae dementia hwyr yn y boblogaeth .....	15
Tabl 9 Nifer y bobl 65 oed a hŷn fesul grŵp ethnig, Gogledd Cymru .....	17
Tabl 10 Nifer y bobl 65 oed a hŷn fesul crefydd neu gred, Gogledd Cymru .....	19

### **Mynegai i'r Ffigurau**

Ffigur 1 Pobl 65+ oed yn derbyn gofal cartref neu'n byw mewn cartref gofal fesul math y gofal.....	5
Ffigur 2 Y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl 65+ oed yng Ngogledd Cymru, 2018 i 2043 .....	7
Ffigur 3 Y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, 2017 i 2035 (Ffynhonnell: Daffodil Cymru) .....	8
Ffigur 4 Gwariant awdurdod lleol ar wasanaethau i bobl hŷn yng Nghymru, fesul math y gefnogaeth, 2017-18 .....	21

# Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

## Nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru

Amcangyfrifir fod rhwng 10,000 ac 11,000 o bobl yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru. Cyhoeddwyd yr amcangyfrif is yn Ystadegau y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (Llywodraeth Cymru, 2018a) a defnyddir yr amcangyfrif uwch yn amcanestyniadau Daffodil (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, 2017). Mae Tabl 1 isod yn dangos nifer o bobl yr amcangyfrifir eu bod yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru ym mhob sir yn seiliedig ar amcangyfrifon niferoedd Daffodil.

Tabl 1 Nifer y bobl yng Ngogledd Cymru â dementia, fesul sir, 2017

Sir	Cyfanswm y boblogaeth 30-64 oed â dementia cynnar	Cyfanswm y boblogaeth 65 oed a hŷn â dementia	Cyfanswm
Ynys Môn	20	1,200	1,200
Gwynedd	32	2,000	2,000
Conwy	33	2,400	2,400
Sir Ddinbych	26	1,500	1,600
Sir y Fflint	42	2,100	2,200
Wrecsam	37	1,800	1,900
Gog. Cymru	190	11,100	11,200

Ffynhonnell: Daffodil Cymru. Mae'n bosibl nad yw'r niferoedd yn adio oherwydd talgrynnu.

Mae Ystadegau'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn amcangyfrif fod 6,300 o fenywod â dementia yng Ngogledd Cymru a 3,700 o ddynion (Llywodraeth Cymru 2018a). Gwnaed yr amcangyfrifon hyn gan Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio cyfraddau cyffredinolrwydd a gyhoeddwyd mewn papur Lancet gan astudiaeth CFAS II (Astudiaeth ar Weithrediad Gwybyddol a Heneiddio) (Alzheimer's Research UK, 2015).

Mae'r proffil oedran yng Ngogledd Cymru yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gyda chyfran uwch o bobl hŷn a chyfran is o drigolion iau yn y rhanbarth o'i gymharu â Chymru (Jones, Andrew and Atenstaedt, 2018).

## Cyfradd diagnosis dementia

Mae tua 5,100 o bobl â diagnosis o ddementia yng Ngogledd Cymru ac amcangyfrifir fod 4,800 o bobl heb gael diagnosis o ddementia (y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, 2018). Ceir rhai problemau gyda chasglu data am nifer y diagnosisau ac mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Meddygon Teulu i wella cofrestru diagnosis, ond mae'n debyg fod y ffigyrau hyn yn tangyfrif union nifer y bobl â diagnosis yng Ngogledd Cymru.

Cyfradd diagnosis dementia yng Ngogledd Cymru oedd 51% a 53% yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018a). Cyfrifir hyn drwy rannu nifer y bobl a gafodd ddiagnosis o ddementia â chyfanswm y nifer yr amcangyfrifir sy'n byw â dementia. Mae'r gyfradd ddiagnosis i Gymru yn is na gwledydd eraill yn y DU: Lloegr 70%, Yr Alban 67% a Gogledd Iwerddon 73% (Alzheimer's Research UK, 2019). Mae Tabl 2 yn dangos cymhariaeth â rhanbarthau eraill Cymru.

Tabl 2 Nifer y bobl â diagnosis ac amcangyfrif o'r nifer heb ddiagnosis 2017-18

Bwrdd iechyd	Nifer â diagnosis	Amcan nifer	Nifer heb ddiagnosis	Canran heb ddiagnosis (%)
Betsi Cadwaladr	5,100	9,900	4,800	51
Powys	1,000	2,200	1,200	46
Hywel Dda	2,700	5,800	3,100	46
Abertawe Bro Morgannwg	3,800	6,500	2,800	58
Cwm Taf	1,600	3,300	1,700	49
Aneurin Bevan	3,900	7,100	3,200	55
Caerdydd a'r Fro	3,200	5,000	1,900	63
Cymru	21,000	40,000	19,000	53

Ffynhonnell: Data'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, astudiaeth cyffredinolrwydd CFAS II, amcangyfrifon canol blwyddyn yr ONS. Talgrynwyd y niferoedd.

## Nifer y bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth

Mae 6,400 o oedolion 65 oed a hŷn yn derbyn gwasanaethau gofal cartref yng Ngogledd Cymru. Mae tua 60% o bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref ym Mhrydain yn byw gyda dementia (Cymdeithas Alzheimer's, 2007). Awgryma hyn y gallai tua 3,800 o bobl sy'n byw gyda dementia fod yn derbyn cefnogaeth gofal cartref yng Ngogledd Cymru.


Tabl 3 Nifer y bobl 65+ oed oedd yn derbyn gwasanaethau gofal cartref, 2017-18

Sir	Nifer yn derbyn gofal cartref	Canran y bobl 65+ oed yn derbyn gofal cartref
Ynys Môn	480	2.7
Gwynedd	1,300	4.7
Conwy	2,100	6.6
Sir Ddinbych	710	3.1
Sir y Fflint	1,100	3.5
Wrecsam	660	2.5
Gog. Cymru	6,400	4.0

Ffynhonnell: StatsCymru. Talgrynwyd y niferoedd.

Mae Tabl 3 yn dangos nifer y bobl sy'n cael gofal cartref, fesul sir. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos cryn dipyn o amrywiad rhwng siroedd. Ymddengys fod hyn oherwydd dulliau gwahanol o ddarparu gofal fel y gwelir yn y ffigur isod, sy'n dangos cyfran y bobl 65+ oed sy'n cael gofal cartref neu sy'n byw mewn cartref gofal fel cyfanswm o'r holl bobl sy'n derbyn gofal cartref neu sy'n byw mewn cartref gofal ym mhob sir.

Ffigur 1 Pobol 65+ oed yn derbyn gofal cartref neu'n byw mewn cartref gofal fesul math y gofal



Ffynhonnell: StatsCymru.

Amcangyfrifir fod gan 69% o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, ddementia, 62% o'r dynion a 71% o'r menywod (Prince *et al.*, 2014). Yng Ngogledd Cymru roedd cyfanswm o 4,800 o bobl yn byw mewn lleoliadau cartref preswyl neu nyrso yn

2017-18 yn cynnwys 530 o bobl o dan 65 oed. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod tua 3,300 o bobl yn byw gyda dementia mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru.

Tabl 4 Nifer yr oedolion oedd yn byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio, 2017-18

Sir	Preswyl	Nyrsio	Cyfanswm
Ynys Môn	450	80	530
Gwynedd	820	300	1,130
Conwy	600	240	840
Sir Ddinbych	490	140	630
Sir y Fflint	580	180	760
Wrecsam	750	130	880
Gog. Cymru	3,700	1,100	4,800

Ffynhonnell: StatsCymru. Talgrynwyd y niferoedd.

Yn ôl cyfrifiad a wnaed yn 2016, gwelwyd fod tua 5,400 o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru yn cynnwys 1,400 lleoliad ariannu eu gofal eu hunain a 200 lleoliad a wnaed y tu allan i'r rhanbarth. Mae Tabl 5 yn dadansoddi'r 3,800 o leoliadau y telir amdanynt yng Ngogledd Cymru fesul math y gofal.

Tabl 5 Lleoliadau cartref gofal yng Ngogledd Cymru, fesul math y gofal

Sir	Preswyl	Preswyl EMI (a)	Nyrsio	Nyrsio EMI (a)	Cyfanswm
Ynys Môn	170	60	30	30	280
Gwynedd	290	70	110	50	520
Conwy	340	40	110	40	540
Sir Ddinbych	180	100	50	30	350
Sir y Fflint	200	150	60	40	440
Wrecsam	240	180	40	40	500
BIPBC	<5	<5	760	440	1,200
Gog. Cymru	1,400	590	1,200	660	3,800

Ffynhonnell: Mai 2016 Cyfrifiad lleoliadau mewn cartrefi gofal.

Mae'n bosibl nad yw'r niferoedd yn adio oherwydd talgrynnu.


(a) EMI: Henoed bregus eu meddwl. Cartrefi sy'n gofalu am bobl â dementia.

## Mae nifer y bobl â dementia yn debygol o gynyddu

Rhagwelir y bydd nifer y rheiny dros 65 oed yn cynyddu'n gyson tan 2038, ac yna'n dechrau disgyn. Amcangyfrifir y bydd nifer y rhai dros 65 yn 2038, oddeutu 195,000 yng Ngogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae oddeutu 160,000 sy'n rhoi cynnydd o tua 35,000 o bobl. Daw'r cynnydd hwn yn sgil gwelliannau yn y gyfradd marwolaethau,

sy'n golygu fod pobl yn byw yn hirach, a hefyd yn sgil y 'baby boomers' a anwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio. Cafwyd ail ymchwydd o fabanod yn nechrau'r 1960au hefyd, ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y band oedran hwn tuag at ddiwedd y cyfnod a ragwelir.


Ffigur 2 Y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl 65+ oed yng Ngogledd Cymru, 2018 i 2043



Ffynhonnell: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Wrth i bobl fyw'n hirach, amcangyfrifir y bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu gan y gwyddom mai oedran yw'r ffactor risg mwyaf. Mae Ffigwr 3 yn dangos y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl hŷn â dementia yn seiliedig ar y rhagdybiaeth hon. Mae cynnydd o 64% rhwng 2017 a 2035, a allai olygu tua 7,000 yn fwy o bobl yn byw â dementia yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae astudiaeth yn awgrymu nad yw'r 'ffrwydrad' a ragwelir mewn achosion o ddementia wedi'i weld gan fod y niferoedd yn yr oedrannau a roddwyd wedi disgyn o tua 20%, yn bennaf mewn dynion gyda chyfraddau menywod yn disgyn yn llai cryf (Matthews *et al.*, 2016). Golyga hyn, wrth i nifer y bobl 65 oed a throsodd gynyddu yn y DU, fe ganfuwyd fod nifer y bobl yn datblygu dementia bob blwyddyn wedi aros yn gymharol sefydlog. Gall hyn fod o ganlyniad i welliannau mewn iechyd a mwy o flynyddoedd yn cael eu treulio mewn addysg, er enghraifft, llai o ddynion yn smygu, bwyta llai o halen a gwneud mwy o ymarfer. Fodd bynnag, mae ymchwilyr wedi rhybuddio y gallai cynnydd mewn ffyrdd o fyw llai iachus wrthdroi'r tueddiad hwn yn y dyfodol.

Ffigur 3 Y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, 2017 i 2035 (Ffynhonnell: Daffodil Cymru)



## Dementia cynnar

Mae mwyafrif helaeth pobl sy'n byw gyda dementia yn bobl hŷn, ac mae achosion o ddementia cynnar (ymhlith pobl o dan 65 oed) yn gymharol brin. Mae tua 5% o bobl sydd â dementia o dan 65 oed, amcangyfrif o 520 o bobl yng Ngogledd Cymru (Prince *et al.*, 2014). Mae'r mwyafrif, tua 410 o bobl, rhwng 60 a 65 oed.

Mae ffigyrau Daffodil sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon cyffredinrwydd is o 2007 yn dangos y rhagdybir y bydd nifer y bobl â dementia cynnar yn disgyn ychydig yng Ngogledd Cymru o tua 20 o bobl oherwydd rhagwelir gostyngiad yng nghyfanswm nifer yr oedolion o dan 65 oed (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, 2017). Fodd bynnag, yn ôl ein gwaith ymgysylltu lleol, mae nifer y bobl ifanc sy'n ceisio cymorth i fyw â dementia wedi bod yn cynyddu'n raddol a dyma grŵp a all ei chael yn anodd cael mynediad at ofal sy'n briodol i'w grŵp oedran.

## Nam gwybyddol ysgafn

Nam gwybyddol ysgafn yw dirywiad mewn galluoedd meddyliol sy'n fwy na heneiddio'n naturiol ond ddim yn ddigon difrifol i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywyd pob dydd, felly nis diffinnir fel dementia. Amcangyfrifir ei fod yn effeithio ar 5% i 20% o bobl dros 65. Mae bod â nam gwybyddol ysgafn yn cynyddu'r risg o ddatblygu dementia. Mae amcangyfrifon yn amrywio o ran nifer y bobl â nam



gwybyddol ysgafn sy'n datblygu dementia o tua 5% i 15% bob blwyddyn (Cymdeithas Alzheimer's, 2019). Ni fydd pawb sydd â nam gwybyddol ysgafn yn datblygu dementia.

## **Pobl ag anableddau dysgu**

Mae mwy o risg fod pobl ag anableddau dysgu yn datblygu dementia wrth fynd yn hŷn (Ward, 2012). Amcangyfrifir fod cyffredinrwydd dementia ymhlith pobl ag anabledd dysgu yn 13% o bobl dros 50 mlwydd oed a 22% dros 65 o'i gymharu â 6% yn y boblogaeth hŷn yn gyffredinol (Kerr, 2007). Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Iechyd Anableddau Dysgu yng Ngogledd Cymru yn adrodd fod pobl ag anabledd dysgu bedair gwaith yn fwy tebygol o gael dementia cynnar. Mae pobl â syndrom Down yn arbennig mewn risg a gallant ddatblygu dementia 30-40 mlynedd yn gynt na'r boblogaeth gyffredinol gyda thua 40% o amgylch y 50 oed (Holland ac eraill, 1998).

## **Nam ar y synhwyrau**

Gall pobl sy'n byw gyda dementia fod â nam ar y synhwyrau hefyd megis colli golwg, colli clyw neu'r ddau.

Mae un o bob pump o bobl 75 oed a throsodd yn byw gyda cholli golwg ac mae'r nifer ychydig yn uwch mewn pobl â dementia, yn enwedig y rheiny sy'n byw mewn cartrefi gofal. Gall dementia hefyd ei gwneud yn fwy anodd adnabod cyflyrau golwg. Amcangyfrifir fod 1,880 o bobl yn byw gyda dementia a cholli golwg sylweddol yng Ngogledd Cymru (RNIB, 2018).

Mae nam ar y clyw yn effeithio ar fywydau bob dydd 42 y cant o bobl dros 50 oed (123,900 o bobl yng Ngogledd Cymru) a 71 y cant o'r rhai dros 70 oed (dros 82,000 o bobl yng Ngogledd Cymru) (Action on Hearing Loss, 2015; Llywodraeth Cymru, 2018b). Argymhellir asesu clyw pawb sydd ag amheuaeth o ddementia (NICE, 2018b) gan y dangoswyd fod gan 80% i 90% o'r rheiny sy'n mynd i wasanaethau asesu cof, nam ar y clyw a gall hyn guddio neu waethygu symptomau dementia. Gwyddom fod adsefydlu clyw, megis defnyddio cymhorthion clyw, yn gwella cyfathrebu ac ymgysylltiad ehangach yn y rheiny sy'n byw gyda dementia (Mamo *et al.*, 2017) ac arafu dirywiad gwybyddol (Maharani *et al.*, 2018). Mae cymhorthion clyw ar gael gan wasanaethau Awdioleg y GIG yng Ngogledd Cymru yn rhad ac am ddim i'r unigolyn yn dilyn atgyfeiriad gan y gwasanaethau gofal cychwynnol.

Ceir cysylltiad hefyd rhwng colli clyw a risg gynyddol o ddementia mewn oedolion dros 55 oed, gyda nam ar y clyw'n cael ei ddisgrifio fel y ffactor risg mwyaf y gellir ei newid i ddementia yng nghanol oed (Livingston *et al.*, 2017). Canfu astudiaeth hirdymor risg uwch o ddementia mewn pobl â nam clyw nad oedd yn defnyddio cymhorthion clyw, er na chanfuwyd risg uwch yn y cyfranogwyr oedd yn defnyddio cymhorthion clyw (Amieva *et al.*, 2018). Mae ymchwil pellach yn awgrymu fod pobl sy'n gwisgo cymhorthydd clyw i broblemau clywed cysylltiedig ag oedran yn cynnal gweithrediad ymennydd gwell dros amser na'r rheiny â phroblemau clyw nad ydynt yn ceisio cymorth. (Brooker *et al.*, 2019). Gyda nam ar y clyw yn effeithio ar gynifer o agweddau o fywyd dyddiol, mae'n bwysig iawn fod asesu ac adfer clyw yn cael eu cyrchu gan y rheiny sy'n gofalu neu sy'n helpu pobl sy'n byw â dementia.

## Iechyd corfforol a chyflyrau eraill

Gall fod cyflyrau eraill gan bobl â dementia sydd angen yr un mynediad at ddiagnosis, triniaeth a gofal â phobl heb ddementia (NICE, 2018a). Gall hyn gynnwys poen, codymau, diabetes ac anymataliaeth. Mae gan bobl â dementia sy'n gorfod mynd i'r ysbyty risg uwch o ddeliriwm a byddant angen asesiad sy'n cydbwysu eu hanghenion meddygol cyfredol â'r niweidiau ychwanegol y gallent eu hwyneb yn yr ysbyty (NICE, 2018a).

Bydd pobl â dementia angen cymorth gydag iechyd y geg hefyd. Dengys astudiaethau fod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal fwy na dwywaith y pydredd dannedd na'r rheiny sy'n byw yn y gymuned, ac i'r rheiny sy'n byw â dementia, mae ddwywaith cyn uchred eto (Thompson, 2014). Mae hon yn broblem gynyddol gan fod mwy o bobl yn cadw eu dannedd eu hunain yn hirach.

## Gofalwyr

O ran cost gofal iechyd a chymdeithasol drwyddi draw i bobl sy'n byw â dementia, amcangyfrifir fod 16% am ofal iechyd, 39% am ofal cymdeithasol a 44% am ofal di-dâl (Prince *et al.*, 2014). Canran cost gofal di-dâl yw 75% i bobl gyda dementia sy'n byw yn y gymuned ac mae cyfraniad gofalwyr di-dâl wedi bod yn codi (Prince *et al.*, 2014). Mae tua dwy ran o dair o bobl â dementia yn byw yn y gymuned, gyda'r traean arall yn byw mewn [cartrefi gofal](#) (Prince *et al.*, 2014).

Canfu'r asesiad o'r boblogaeth fod tua 73,000 yn darparu gofal di-dâl yng Ngogledd Cymru, tua 11% o'r boblogaeth ac mae nifer y gofalwyr yn cynyddu. Yn gyffredinol, mae mwy o fenywod yn rhoi gofal di-dâl na dynion: mae 57% o'r gofalwyr yng

Ngogledd Cymru yn fenywod, a 42% yn ddynion, sy'n debyg i'r gyfran ar draws Cymru ac ym mhob ardal cyngor lleol. Pobl rhwng 50 a 64 oed sy'n fwyaf tebygol o fod yn rhoi gofal di-dâl. Mae tua hanner ohonynt mewn gwaith a 30% wedi ymddeol.

Gwelodd adroddiad gan Alzheimer's Research UK (2015) fod rhwng 60% a 70% o'r holl ofalwyr dementia di-dâl yn fenywod. Mae 2.5 gwaith yn fwy o fenywod na dynion yn darparu gofal dwys ar ddyletswydd i rywun 24 awr y dydd. Maent hefyd 2.3 gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod wedi bod yn rhoi gofal i rywun â dementia am fwy na phum mlynedd ac felly maent yn gyfran helaeth o'r gofalwyr sy'n cefnogi rhywun â dementia dwys. Yn ôl yr adroddiad, mae menywod sy'n gofalu am bobl â dementia yn teimlo'u bod yn cael llai o gefnogaeth, na'u cyfatebwyr gwrywaidd.

Mae [Strategaeth Dementia Gogledd Cymru](#) yn amlinellu gweledigaeth a chynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru fel bod anghenion gofalwyr unigol, yn cynnwys anghenion iaith, yn cael eu bodloni yn y ffordd orau a bod sylw'n cael ei roi i'r gofalwr yr un pryd â'r sawl y gofalir amdano. Mae hyn yn cynnwys adnabod gofalwyr yn gynnar a chynnwys gofalwyr yn y prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio.

## Lleihau'r risg ac oedi'r cychwyn

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell [chwe cham](#) y gall pobl eu cymryd i leihau eu risg o ddementia. Maent fel a ganlyn:

- Cam 1: Cadw'n gorfforol brysur
- Cam 2: Cadw pwysau iach
- Cam 3: Bod yn weithgar yn gymdeithasol a meddyliol (dilyn y [5 ffordd at les](#)).
- Cam 4: Osgoi yfed gormod o alcohol
- Cam 5: Stopio ysmegu
- Cam 6: Ymrwymo i gadw llygad ar eich iechyd

Dengys data o [Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus](#) fod yng Ngogledd Cymru:

- 52% o oedolion yn gwneud y 150 munud o ymarfer yr wythnos a argymhellir, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru o 53%.
- 22% o oedolion yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 24%.

- 41% o oedolion oedran gweithio yn bwysau iach, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru o 39%. Hefyd mae 40% o bobl hŷn yn bwysau iach sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 36%.
- Mae 53% o bobl yn dweud fod ganddynt ymdeimlad o gymuned, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 50% ac mae 16% o oedolion yn dweud eu bod yn teimlo'n unig, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru o 17%.
- Mae 18% yn yfed mwy o alcohol na'r canllawiau, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru sef 19%.
- Mae 19% o oedolion yn smygu, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru sef 19%.

Mae cysylltiad agos rhwng y ffactorau risg hyn ag amddifadedd ac achosion cymdeithasol eraill iechyd gwael. Er enghraifft, mae oedolion sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru 2.4 gwaith yn fwy tebygol o smygu na'r rheiny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018).

## Darpariaeth yn y Gymraeg

Mae angen i ni sicrhau fod digon o ddarpariaeth ac asesiad arbenigol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys cynnig gweithredol. Ystyr cynnig gweithredol yn syml yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Nodwyd bod hyn yn bryder yn ymchwil cenedlaethol y Comisiynydd Pobl Hŷn yn ei hadroddiad: 'Dementia: Mwy na dim ond colli'r cof'.

Mae Cymdeithas Alzheimer's Cymru wedi rhyddhau [adroddiad](#) gyda Chomisiynydd y Gymraeg am fynediad at ofal yn y Gymraeg i bobl sy'n byw â dementia. Mae'r argymhellion yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Alzheimer's. Mae rhai o'r meysydd lle byddant yn gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cynnwys y canlynol.

- Asesiadau o ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cefnogaeth a gofal pobl yn eu hardal, yn cynnwys y canlyniad, 'Rwyf yn cael gofal a chefnogaeth drwy'r iaith Gymraeg os wyf ei angen'.
- Datblygu llwybr gofal iaith Gymraeg.
- Datblygu llwyfan cenedlaethol i rannu profion diagnostig Cymraeg yn ogystal ag adnoddau, arbenigedd a gwybodaeth am ddementia a'r iaith Gymraeg.
- Datblygu fforymau cenedlaethol a lleol i rannu profiadau o gyflwyno gofal a gwirfoddoli yn Gymraeg.

- Gwneud yn siŵr fod darpariaeth dysgu Cymraeg arbenigol ar gael i weithwyr sy'n rhan o becyn gofal pobl sy'n byw gyda dementia a, lle bo modd, bod staff yn cael eu rhyddhau am gyfnodau estynedig i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 31% o boblogaeth Gogledd Cymru yn gallu siarad Cymraeg, yn amrywio o 65% yng Ngwynedd i 13% yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch eto mewn rhai ardaloedd o Ogledd Cymru, gyda rhai adrannau etholiadol (wardiau) lle mae 88% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg, megis Llanrug, ac ardaloedd o Gaernarfon. Mae cyfran y bobl 65 oed a hŷn sy'n siarad Cymraeg ychydig yn is ac fe'i dangosir yn y tabl isod.

Tabl 6 Nifer a chanran y bobl 65+ oed oedd yn siarad Cymraeg, 2011

Sir	Nifer	%
Ynys Môn	7,745	54
Gwynedd	14,590	62
Conwy	6,245	24
Sir Ddinbych	4,211	21
Sir y Fflint	2,136	9
Wrecsam	2,673	9
Gogledd Cymru	37,600	27

Ffynhonnell: StatsCymru (Cyfrifiad 2011).

Canran gyffredinol y staff mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru yw 20% sy'n is na chanran y bobl 65 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg ond yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 16%. Mae canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn amrywio o 4% yn Wrecsam i 86% yn Ynys Môn. Yr ardaloedd yng Ngogledd Cymru sydd â'r bylchau mwyaf rhwng nifer y bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg a nifer y staff gofal cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg yw Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam. Fodd bynnag, dim ond staff a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol sydd yn y data yma, nid staff sy'n gweithio i sefydliadau a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol i ddarparu gofal a chefnogaeth.

Tabl 7 Canran staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n siarad Cymraeg

Sir (a)	% staff
Ynys Môn	86
Gwynedd	77
Conwy	9
Sir Ddinbych	17
Sir y Fflint	11
Wrecsam	4
Gogledd Cymru	20

Ffynhonnell: StatsCymru (Casglu data staffio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol).

Gall dementia effeithio ar allu ieithyddol unigolyn, gan ei fod yn effeithio ar y rhan honno o'r ymennydd. Mae dirywiad mewn iaith yn gyffredin. Dengys tystiolaeth y gall pobl ddwyieithog golli eu gallu i siarad un o'u hieithoedd. Mae'n hanfodol fod pobl sy'n byw â dementia yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith. Os nad yw'r gwasanaethau ar gael, mae'n golygu y gall fod oedi diangen mewn diagnosis a gall fod diffygion wrth ddarparu ar gyfer eu hanghenion gofal.

Canfu ymchwil a gyhoeddwyd yn y Cyfnodolyn Niwroseicoleg fod siaradwyr Cymraeg yn cael diagnosis ar gyfartaledd dair blynedd yn ddiweddarach na'r rheiny sy'n siarad Saesneg yn unig. Gwelwyd hefyd fod eu cyflwr gwybyddol yn llawer gwaeth ar bwynt y diagnosis. Mae'n debyg fod iaith yn ffactor allweddol fan hyn. Canfu Morgan a Crowder (2003) fod iaith yn ffactor pan mae pobl ddwyieithog yn gwneud yr Arholiad Cyflwr Meddyliol Bach. Byddai eu sgôr yn Gymraeg yn wahanol i'w sgôr wrth ei wneud yn Saesneg. Ceir manylion pellach yn [Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg](#).

Mae hyn yn gwneud dewis iaith yn angen clinigol, sy'n cael ei gefnogi gan bolisiâu a chanllawiau ar lefel genedlaethol, megis yn Mwy na Geiriau a Chynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia.

# Cydraddoldeb a hawliau dynol

Os oedd ar gael, cynhwyswyd data i geisio tynnu sylw at anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr. Mae'r adran hon yn crynhoi'r materion y bydd angen eu hystyried yn y strategaeth i sicrhau eu bod yn bodloni dyletswydd sector cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010 i fynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt. Yn ychwanegol at y data a gasglwyd byddwn yn ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchoddedig am y strategaeth ac yn cwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

## Oedran

Mae pobl yn fwy tebygol o brofi dementia wrth iddynt fynd yn hŷn fel y dangosir yn Nhabl 8 isod. Mae gan gyfanswm o 7.1% o'r holl bobl dros 65 oed ddementia sy'n codi i 17% i'r rheiny dros 80 oed (Prince *et al.*, 2014).

Tabl 8 Amcangyfrifon consensws o ba mor gyffredin (%) mae dementia hwyr yn y boblogaeth

Oedran	Menywod	Dynion	Cyfanswm
60 i 64	0.9	0.9	0.9
65 i 69	1.8	1.5	1.7
70 i 74	3.0	3.1	3.0
75 i 79	6.6	5.3	6.0
80 i 84	11.7	10.3	11.1
85 i 89	20.2	15.1	18.3
90 i 94	33.0	22.6	29.9
95 a hŷn	44.2	28.8	41.1

Ffynhonnell: Dementia UK 2014.

Bydd angen i'r strategaeth sicrhau ei bod yn ymdrin ag anghenion gwahanol pobl iau a hŷn â dementia. Gan fod achosion o [ddementia cynnar](#) yn gymharol brin mae risg nad yw'r gwasanaethau wedi'u llunio gyda'r grŵp hwn mewn golwg felly gallant brofi gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol wrth gyrchu gwasanaethau.

Mae'n bwysig hefyd fod y strategaeth yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a all brofi gwahaniaethu ar sail oed hefyd a bod mewn

perygl o gamdriniaeth. Dylai fod wedi'i selio ar Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn: mae 18 egwyddor y gellir eu grwpio o dan bum thema: annibyniaeth, cyfranogi, gofal, hunangyflawniad ac urddas.

## **Anabledd**

Mae gan bobl ag [anableddau dysgu](#) fwy o risg o ddatblygu dementia.

Gall pobl â dementia fod â nam corfforol a/neu [nam ar y synhwyrâu](#).

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (2006) (DU) hefyd yn hyrwyddo ac yn gwarchod hawliau pobl anabl yn cynnwys person â dementia.

## **Priodas a phartneriaeth sifil**

Dywed Deddf Cydraddoldeb 2010 na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl mewn gwaith oherwydd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Gweler yr [adran cyfeiriadedd rhywiol](#) am fwy o wybodaeth am briodas a phartneriaeth sifil i bobl sy'n dynodi eu hunain yn lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol.

## **Beichiogrwydd a mamolaeth**

Bydd angen i'r strategaeth sicrhau nad yw'n cael effaith andwyol ar weithwyr goal a gofawyr di-dâl sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth neu yn y 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth. Mae hyn yn cynnwys trin rhywun yn anffafriol oherwydd eu bod yn bwydo o'r fron am gyn hired ag y maent yn gwneud hynny. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau fod gan ddarparwyr gwasanaethau bolisiau da yn y gweithle a bod cymorth priodol yn ei le i ofalwyr di-dâl.

## **Hil**

Canfu ymchwil fod diagnosis o ddementia 25% yn uwch ymhlith menywod du na menywod gwyn a 28% yn uwch ymhlith dynion du na dynion gwyn. Roedd menywod a dynion Asiaidd yn 18% a 12% yn llai tebygol na menywod a dynion gwyn, o gael diagnosis dementia (Pham *et al.*, 2018). Canfuwyd hefyd y gall cyfraddau pobl sy'n cael diagnosis fod yn is nag union gyfraddau dementia mewn rhai grwpiau, yn arbennig ymhlith dynion du. Roedd yr ymchwil yn amlygu'r negeseuon ei bod yn well diagnosiso dementia yn gynnar a bod angen i wasanaethau diagnostig gael ei deilwra i wahanol grwpiau gan y gall cefndir diwylliannol pobl ddylanwadu ar ba mor barod neu amharod y maent i ofyn am help.



Mae astudiaethau eraill wedi tynnu sylw at y ffaith fod ffactorau risg i ddementia, yn cynnwys pwysedd gwaed uchel, diabetes, strôc a chlefyd y galon yn tueddu i fod yn uwch mewn sawl grŵp pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Prince *et al.*, 2014). Mae pobl o'r cymunedau hyn (BAME) yn llai tebygol o gael diagnosis neu dderbyn cymorth ôl-ddiagnosis (Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Dementia, 2013).

Yn ôl Cyfrifiad 2011 Gogledd Cymru, roedd tua 800 o bobl o grwpiau BAME yn 65 oed a hŷn, sef 0.6% o'r boblogaeth. Mae Tabl 9 isod yn dangos nifer y bobl 65 oed a hŷn fesul grŵp ethnig yng Ngogledd Cymru.

Tabl 9 Nifer y bobl 65 oed a hŷn fesul grŵp ethnig, Gogledd Cymru

Grŵp ethnig	Nifer y bobl
Gwyn	140,000
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	360
Grŵp ethnig cymysg/lluosog	330
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	70
Grŵp ethnig arall	50

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011.

Mae cyfran y bobl o grwpiau BAME yn uwch i bobl o dan 65 oed ar tua 2.7% felly gall y nifer 65 oed a throsodd godi wrth i'r bobl iau yma heneiddio. Er, mae tua 29% o bobl o grwpiau BAME 16 oed a hŷn sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn fyfyrwyr llawn-amser (o'i gymharu â 7% o bobl wyn), felly mae'n boblogaeth symudol iawn a all symud allan o'r ardal a myfyrwyr eraill yn dod yn eu lle yn hytrach nag aros yno wrth iddyn nhw heneiddio.

Yn seiliedig ar amcangyfrif o gyfradd gyffredinrwydd o 7.1% o bobl 65 oed a throsodd yn cael dementia, mae hyn yn awgrymu fod tua 60 o bobl o grwpiau BAME yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru (Prince *et al.*, 2014). Gan fod hwn yn grŵp mor fychan o bobl, mae angen gofalu nad oes unrhyw ofynion penodol yn cael eu hesgeuluso wrth gynllunio gwasanaethau drwy wneud yn siŵr fod gwasanaethau'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Mae gallu darparu gwasanaethau ym mamiaith rhywun yn bwysig iawn hefyd mewn gofal dementia gan y gall pobl golli ieithoedd eraill a gaffaelwyd yn ddiweddarach yn eu bywyd. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 82 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad yng

Ngogledd Cymru. Ar ôl Cymraeg a Saesneg, yr iaith a siaredir yn fwyaf cyffredin yw Pwyleg gyda thua 5,100 o siaradwyr, yn byw yn Wrecsam yn bennaf (2,600 o siaradwyr) a Sir y Fflint (1,300 o siaradwyr). Yr ieithoedd Tsieinëeg yw'r mwyaf cyffredin wedyn gyda 1,700 o bobl yn siarad iaith Tsieinëeg yn cynnwys Tsieinëeg Cantoneg a Tsieinëeg Mandarin. Yna Arabeg gyda 790 o siaradwyr, Portiwgaleg gyda 750 o siaradwyr a Tagalog/Ffilipino gyda 560 o siaradwyr.

Mae'r ieithoedd a siaredir yn fwyaf cyffredin yn debyg i bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru hefyd, gyda Phwyleg yr iaith a siaredir fwyaf (150 o siaradwyr), tua 90 o siaradwyr Tsieinëeg ac yna Ffrangeg (30), Portiwgaleg (20) a Bengaleg gyda Sylheti a Chatgaya (15 o siaradwyr).

Dengys ymchwil am dementia mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr nad yw ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth am sut i leihau'r risg yn cyrraedd y cymunedau hyn yn aml (Rattigan a Sweeney, 2018). Gwelwyd hefyd fod pobl yn osgoi chwilio am gymorth oherwydd eu bod yn teimlo na fyddent yn derbyn gofal fyddai'n ddiwylliannol addas yn ogystal â bod yn well ganddynt gael gweithwyr gofal o blith y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

## **Crefydd neu gred**

Roedd oddeutu 82% o bobl 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru yn nodi eu bod yn Gristnogion yng Nghyfrifiad 2011. Mae Tabl 10 isod yn dangos nifer y bobl 65 oed a hŷn fesul crefydd neu gred. Fel gyda chefnidir ethnig uchod, mae angen gofalu nad oes unrhyw ofynion penodol yn cael eu hesgeuluso wrth gynllunio gwasanaethau drwy wneud yn siŵr fod gwasanaethau'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Tabl 10 Nifer y bobl 65 oed a hŷn fesul crefydd neu gred, Gogledd Cymru

Crefydd	Nifer y bobl
Cristion	110,000
Dim crefydd	12,000
Heb ddatgan crefydd	12,000
Crefydd arall	280
Bwdhydd	180
Mwslim	95
Iddew	90
Hindŵ	70
Sikh	10

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011. Talgrynwyd y niferoedd.

## Rhyw

Mae mwy o fenywod na dynion yn [byw gyda dementia](#) ac mae menywod yn fwy tebygol o fod yn [ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia](#). Ceir mwy o wybodaeth am y gwahaniaeth mewn cyfraddau cyffredinrwydd rhwng menywod a dynion yn Nhabl 8.

## Cyfeiriadedd rhywiol a phobl drawsryweddol

Gall pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws wynebu heriau ychwanegol wrth fyw gyda dementia. Gallant fod yn llai tebygol o gael teulu a phlant i'w cefnogi ac wedi profi camwahaniaethu sy'n gwneud iddynt deimlo'n anniogel wrth gychu gofal iechyd a chymdeithasol (Fforwm Gofal Cenedlaethol, 2016). Mewn adroddiad ar y Rhwydwaith LGBT Hŷn yng Ngogledd Cymru, tynnwyd sylw at ragfarn a thriniaeth gan bobl hŷn eraill; darparwyr gofal ac ymarferwyr iechyd yn cymryd yn ganiataol eu bod yn heterorywiol; a phobl ddim yn parchu eu dymuniadau ynghylch pwy maen nhw'n eu hystyried fel eu teulu a'u perthynas agosaf (Age Cymru, 2009).

Mae amcangyfrifon am nifer y bobl LGBT yn y boblogaeth yn amrywio ac ni chasglwyd data yn y Cyfrifiad diwethaf. Mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu fod tua 0.7% o'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn arddel eu bod yn LGB, ond i'r rhai 16 i 24 oed, roedd hyn yn 4.2% (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017). Awgrymir y gallai hyn fod oherwydd bod pobl ifanc yn fwy tebygol o archwilio eu rhywedd, ochr yn ochr

â'r ffaith fod hunaniaethau rhywiol gwahanol yn fwy derbyniol yn gymdeithasol heddiw a'r gallu i'w mynegi.

Yn 2017, dywedodd tua 69% o'r rheiny oedd yn nodi eu bod yn lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol nad oeddent erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017). Mae hwn yn ganran uwch nag i'r rheiny sy'n arddel fel heterorywiol neu syth (34%).

Gall pobl drawsryweddol wynebu heriau unigryw wrth fyw â dementia, er enghraifft o ran teimlo'n ddiogel a mynegi eu hunaniaeth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu [Supporting me to be the person I want to be](#), canllaw i ddeall, myfyrio ac ymateb i faterion trawsryweddol mewn gofal dementia.

## Tlodi

Mae llawer o'r ffactorau risg o ddatblygu dementia yn gysylltiedig â byw mewn tlodi fel y disgrifiwyd yn yr adran ar [leihau'r risg ac oedi'r cychwyn](#).

Gall pobl sy'n byw gyda dementia fod yn fwy tebygol o brofi tlodi hefyd, os nad ydyn nhw a/neu eu gofalwyr yn gallu gweithio mwyach neu wneud yr un oriau neu'r math o waith ag yr oedden nhw yn arfer ei wneud. Mae addasiadau rhesymol y gall cyflogwyr eu gwneud i helpu pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr i barhau mewn cyflogaeth.


Mae'r system budd-daliadau lles a'r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ariannu yn gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru felly maent y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, er eu bod yn cael effaith sylweddol ar les pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia.

# Faint sy'n cael ei wario ar wasanaethau pobl hŷn

Nid oes data ar gael am y swm sy'n cael ei wario gan awdurdodau lleol ar ofal a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia. Yn 2017- 18 gwariwyd cyfanswm o tua £130 miliwn ar wasanaethau pobl hŷn gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, a bydd hyn yn cynnwys cyfran uchel o bobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r gwariant mwyaf ar ofal preswyl, gofal yn y cartref a lleoliadau nyrsio fel y dangosir yn Ffigur 4 isod.

Yn 2017- 18 gwariodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) £56 miliwn yn y categori 'salwch meddwl pobl hŷn'. Gwariwyd £2.9 miliwn o hwnnw mewn gofal cychwynnol a £53 miliwn mewn gofal eilaidd (Llywodraeth Cymru, 2019).

Ffigur 4 Gwariant awdurdod lleol ar wasanaethau i bobl hŷn yng Nghymru, fesul math y gefnogaeth, 2017-18



Ffynhonnell: StatsCymru

# Cyfeiriadau

Action on Hearing Loss 2015. Hearing Matters. London: Action on Hearing Loss.

Age Cymru 2009. Adroddiad y Rhwydwaith LGBT Hŷn ar anghenion penodol pobl lesbiaidd, hoyw, deurwiol a thrawsryweddol hŷn

All-Party Parliamentary Group on Dementia 2013. Dementia does not discriminate: The experiences of black, Asian and minority ethnic communities.

Alzheimer's Research UK 2015. Women and dementia: A marginalised majority.

Alzheimer's Research UK 2019. Dementia Statistics Hub.

Alzheimer's Society 2007. Home from home: A report highlighting opportunities for improving standards of dementia care in care homes.

Cymdeithas Alzheimer's Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2018. [Gofal Dementia Siaradwr Cymraeg](#)

Alzheimer's Society (2019) *About dementia*. Available at: <https://www.alzheimers.org.uk/about-dementia>.

Amieva, H., Ouvrard, C., Meillon, C., Rullier, L. and Dartigues, J.-F. (2018) 'Death, Depression, Disability, and Dementia Associated With Self-reported Hearing Problems: A 25-Year Study', *The Journals of Gerontology: Series A*, 73(10).

Brooker, H, Severin, J., Sander, M., Corbett, A., Aarsland, D., Hampshire, A., Wesnes, K and Ballard, C. 'Use of Hearing Aids in Older Adults with Hearing Loss Is Associated with Improved Cognitive Trajectory', *Alzheimer's Association International Conference*, Los Angeles, USA.

Holland, A. J., Hon, J., Huppert, F. A., Stevens, F. and Watson, P. (1998) 'Population based study of the prevalence and presentation of dementia in adults with Down's syndrome.', *British Journal of Psychiatry*, 172, pp. 493-498.

Institute of Public Care (2017) *Daffodil: Projecting the need for care services in Wales*. Available at: <http://www.daffodilcymru.org.uk/> (Accessed: 04/06/2019).

Jones, C., Andrew, R. ac Atenstaedt, R. 2018. Iechyd Meddwl a lles ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Kerr, D. 2007. Understanding Learning Disability and Dementia: Developing Effective Interventions. London: Jessica Kingsley Publishers.

Livingston, G, Sommerlad, A., Orgeta, V., Costafreda, S. G., Huntley, J., Ames, D., Ballard, C., Banerjee, S., Burns, A., Cohen-Mansfield, J. and Cooper, C. (2017) 'Dementia prevention, intervention, and care', *The Lancet*, 390(10113), pp. 2673-2734.

Maharani, A, Dawes, P., Nazroo, J., Tampubolon, G., Pendleton, N., SENSE-Cog WP1 group, Bertelsen, G., Cosh, S., Cougnard-Grégoire, A., Delcourt, C. and Constantinidou, F. (2018) 'Longitudinal relationship between hearing aid use and cognitive function in older Americans', *Journal of the American Geriatrics Society*, 66(6), pp. 1130-1136.

Mamo, S.K., Nirmalasari, O., Nieman, C. L., McNabney, M. K., Simpson, A., Oh, E. S. and Lin, F. R. (2017) 'Hearing care intervention for persons with dementia: A pilot study', *The American Journal of Geriatric Psychiatry*, 25(1), pp. 91-101.

Matthews, F. E., Stephan, B. C. M., L. Robinson, L., Jagger, C., Barnes, L. E., Arthur, A. and Brayne, C. (2016) 'A two decade dementia incidence comparison from the Cognitive Function and Ageing Studies I and II', *Nature Communications*, *Published online: 19 April 2016*; | doi:10.1038/ncomms11398.

National Care Forum 2016. Dementia care and LGBT communities.

NICE 2018a. Dementia: assessment, management and support for people living with dementia and their carers. *NICE guideline [NG97]*.

NICE 2018b. Hearing loss in adults: assessment and management. *NICE guideline NG98*.

Office for National Statistics 2017. Sexual orientation, UK. *Experimental statistics on sexual orientation in the UK in 2017 by region, sex, age, marital status, ethnicity and socio-economic classification*.

Pham, T., Petersen, I., Walters, K., Raine, R., Manthorpe, J., Mukadam, N. and Cooper, C. (2018) 'Trends in dementia diagnosis rates in UK ethnic groups: analysis of UK primary care data', *Clinical Epidemiology*, 10.

Prince, M., Knapp, M., Guerchet, M., McCrone, P., Prina, M., Comas-Herrera, A., Wittenberg, R., Adelaja, B., Hu, B., King, D., Rehill, A. and Salimkumar, D. (2014) *Dementia UK: Second Edition - Overview*. Alzheimer's Society.

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018. Iechyd a'i phenderfynyddion yng Nghymru.

Rattigan, S. and Sweeney, S. 2018. 'We look after our own': Dementia in Gypsy and Traveller Communities.

RNIB 2018. Sight Loss Data Tool.

Thompson, W. M. 2014. Epidemiology of oral health conditions in older people.

Ward, C. 2012. BILD Factsheet: Older people with a learning disability. British Institute of Learning Disabilities.

Llywodraeth Cymru 2018a. Contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol: Y Fframwaith Ansawdd ac Ystadegau i Gymru, 2017-18.

Llywodraeth Cymru 2018b. Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth (1991 ymlaen), gan awdurdodau lleol Cymru, rhanbarthau Lloegr a gwledydd y DU, ar gyfer un flwyddyn o oedran a rhyw.

Llywodraeth Cymru 2019. gwariant y GIG fesul categori cyllideb rhaglen

Llywodraeth Cymru 2020. Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2018.